**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad | Date: 8 Hydref 2021

Pwnc | Subject: **Cefnogaeth i'r Gymraeg a gwaith craffu blynyddol**

Annwyl Aled,

Diolch am ddod i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 29 Medi 2021, i drafod, ymhlith pethau eraill, eich Adroddiad Blynyddol a'ch Adroddiad Sicrwydd.

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o faterion a godwyd.

**Newidiadau i'r cyllid ar gyfer amaethyddiaeth**

Soniasoch eich bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch cynigion ar gyfer cymorth ariannol i'r sector ffermio i gymryd lle'r cyllid o'r polisi amaethyddol cyffredin ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Dywedasoch fod ardaloedd yn y gorllewin a'r gogledd lle mae dros 90 y cant o'r gweithlu amaethyddol yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, soniasoch fod cyfran y ffermydd teuluol bach yn uwch yng Nghymru na gweddill y DU, sy'n golygu bod angen rheoli newidiadau i bolisïau ariannu yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw effaith anghymesur ar gymunedau gwledig Cymraeg.

A allwch chi nodi eich pryderon ynghylch y cynigion ariannu presennol ac unrhyw effaith bosibl y gallent ei chael ar hyfywedd y Gymraeg? Mae'r Pwyllgor yn deall eich bod wedi trefnu i gwrdd â Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, yn Llywodraeth Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am eich trafodaeth, os ydych yn fodlon rhannu hyn gydag Aelodau, er mwyn llywio'r gwaith ar gefnogi'r Gymraeg.

**Gwaith rhyngwladol**

A allech chi ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith rydych yn ei wneud yn rhyngwladol? Hoffai'r Pwyllgor gael gwybod mwy am y ffyrdd y mae eich sefydliad yn lledaenu arfer da o ran cefnogi a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, ac unrhyw syniadau a gaiff eu rhannu gan wledydd eraill y gall Cymru ddysgu ohonynt. Yn benodol, hoffai’r Pwyllgor eich llongyfarch ar eich cyflwyniad i'r Dail yn Iwerddon ar y cynllun Iaith Gwaith – Working Welsh a'i lwyddiant o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus. A allwch chi roi mwy o fanylion am eich trafodaethau gydag Aelodau a swyddogion yn Iwerddon?

**Adroddiadau ehangu mynediad**

Cyhoeddodd Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru eu gwaith **'Ymchwil Ehangu Ymgysylltiad'** ym mis Awst. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfres o sgyrsiau manwl gyda rhanddeiliaid o dan arweiniad Re: cognition, Richie Turner Associates ac Undeb Welsh Arts Anti-Racist Union (WAARU). Dywedodd y rhai a gymerodd ran yng ngwaith WAARU eu bod yn teimlo wedi'u heithrio o'r sector a oedd yn gysylltiedig â'r 'cysyniad o 'Gymreictod', sydd, meddent:

> "yn aml yn dieithrio pobl Ddu a phobl groenliw nad ydynt yn Ddu a’u ‘haralleiddio’ – mae’r syniad yn bodoli nad oes modd i chi fod yn Gymro neu’n Gymraes os nad ydych chi’n wyn".

Roedd pryder y gallai'r angen i gyrff cyhoeddus gadw at Safonau'r Gymraeg mewn ymarferion recriwtio arwain at ganlyniad anfwriadol o atal pobl rhag gwneud cais am swyddi yn y sectorau celfyddydau a threftadaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn yn y cyfarfod, dywedasoch eich bod yn y broses o ddyfarnu'r mater hwn ac mai dim ond ar ôl i'ch dyfarniad gael ei benderfynu y byddech yn gallu rhannu eich sylwadau â'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod efallai nad ydych mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar y mater hwn ar hyn o bryd, ond byddai'n gwerthfawrogi'n fawr pe cai glywed eich barn ar ôl i chi ddyfarnu ar yr achos hwn.

**Camu ymlaen: Adroddiad Sicrwydd 2020-21**

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd Aelodau'r Pwyllgor wedi gallu trafod yr Adroddiad Sicrwydd a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar. A fyddech cystal â darparu nodyn byr i'r Pwyllgor yn rhoi gwybod i ni am y canlynol:

- yr hyn, yn eich barn chi, yw prif effaith y pandemig ar allu sefydliadau i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac
- unrhyw effaith ar ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau statudol yn sgil hynny.

Byddai hefyd o ddiddordeb i'r Pwyllgor glywed eich barn ar sut mae sefydliadau wedi addasu i'r angen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ddigidol ar fyr rybudd.

Mae pandemig COVID-19 wedi achosi newid sylweddol o ran faint o bobl sy'n gweithio, gyda llawer o staff sy’n gweithio mewn cyrff cyhoeddus bellach yn gweithio gartref. A allech chi roi naratif cyffredinol i'r Pwyllgor ar sut y gall sefydliadau gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn yr amgylchedd gwaith newydd hwn, ac a yw sefydliadau'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn erbyn 5 Tachwedd 2021.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol